Datganiad i'r Wasg
10 Hydref 2009

ENILLYDD YSGOLORIAETH BRYN TERFEL
URDD GOBAITH CYMRU 2009

Catrin Angharad Roberts o Lanbedrgoch ddaeth i'r brig yng nghystadleuaeth Ysgoloriaeth Bryn Terfel Urdd Gobaith Cymru eleni, a gynhaliwyd yn Theatr Weston, Canolfan Mileniwm Cymru, Caerdydd heno.

Catrin Angharad Roberts wnaeth yr argraff fwyaf ar y beirniaid yn y gystadleuaeth alaw werin unigol yn Eisteddfod yr Urdd eleni. Llwyddodd hefyd i gipio Gwobr Goffa Lady Herbert Lewis am yr Unawd Alaw Werin dros 21 oed yn Eisteddfod Meirion a'r Cyffiniau. Mae Catrin yn aelod brwd o Aelwyd yr Ynys ac mae hi bellach yn arweinydd a chyd sefydlydd côr meibion newydd sbon Ynys Môn.

Meddai Catrin:
"Fedra i ddim diolch digon am y profiad dwi wedi ei gael wrth gystadlu. Dwi wedi mwynhau pob munud a does na ddim geiriau i ddisgrifio'r anrhydedd . Mae wedi bod yn brofiad arbennig a a dwi wedi gwneud ffrindau oes ar y daith. Does dim dwywaith y bydd yr Ysgoloriaeth yn mynd a fi ymhellach ac os y cai hanner llwyddiant y mae Bryn Terfel wedi ei gael yna mi fyddai wrth fy modd."

Yn ôl Aled Siôn, Cyfarwyddwr Eisteddfod a'r Celfyddydau, Urdd Gobaith Cymru:
''Cawsom ein gwefreiddio gan berfformiadau o'r radd flaenaf yn Theatr Weston, Canolfan Mileniwm Cymru heno. Pleser o'r mwyaf oedd cael cwmni Bryn Terfel, sydd bob amser mor gefnogol i waith yr Urdd. Braf yw cael anrhydeddu enillydd haeddiannol arall eleni, a hynny am y degfed tro yn hanes yr ysgoloriaeth arbennig hon. Rwy'n mawr obeithio y bydd y £4000 o gymorth i Catrin osod seiliau cadarn ar gyfer gyrfa broffesiynol yn y dyfodol.''

Diwedd

Am fwy o fanylion, cysyllter â Manon Wyn, 01970 613115, manonwyn@urdd.org
neu 07976 330360

NODIADAU I OLYGYDDION

- Urdd Gobaith Cymru yw prif fudiad ieuenctid Cymru.
- Mae'r Urdd yn cynnig cyfleoedd penigamp i blant a ieuenctid Cymru ers dros 80 mlynedd.
- Mae gan yr Urdd dros 50,000 o aelodau rhwng 8 a 25 oed.

- Sefydlwyd yr Urdd er mwyn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc Cymru fyw bywydau byrlymus trwy gyfrwng y Gymraeg a magu hyder a pharch tuag at ei gilydd a phobl eraill yn y byd.
- Mae gweithgareddau'r Urdd yn cynnwys teithiau, chwaraeon, eisteddfod, cylchgronau, adrannau ac aelwydydd a gwersylloedd.